




Cod Hygyrchedd Haen 1 [Drafft] Ofcom

Diweddarwyd ddiwethaf: [Ymgynghoriad: Cod Hygyrchedd Haen 1](#)

Drafft ar gyfer Ymgynghori



Cynnwys

Adran

1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir Cyfreithiol	4
3. Diffiniadau a therminoleg.....	6
4. Cwotâu.....	7
5. Eithriadau a gofynion amgen	9
6. Hyrwyddo ymwybyddiaeth	12
7. Adrodd.....	13
A1. Proses ar gyfer gofyn am eithriadau a chynnig threfniadau amgen	15

Dratff ar gyfer ymgynghori

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cod Hygyrchedd Haen 1 hwn yn gosod y gofynion ar ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl anabl, gan gynnwys, yn benodol, pobl ag anabledau sy'n effeithio ar eu golwg, eu clyw, neu'r ddau.
- 1.2 Mae'r Cod hwn hefyd yn darparu canllawiau o ran i ba raddau y dylai Gwasanaethau Haen 1 hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad pobl anabl (yn benodol pobl ag anabledau sy'n effeithio ar eu golwg a/neu eu clyw) o'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn eu gwasanaethau, a'r modd y dylid hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r fath. Mae'r Cod hefyd yn ymgorffori Canllawiau Ofcom ar [Ddarparu Gwasanaethau Teledu a Mynediad Ar alw](#).
- 1.3 Mae'r Cod hwn yn berthnasol waeth beth fo'r dull cyflwyno i bob Gwasanaeth Haen 1.¹ Mae hefyd yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-Alw Cyhoeddus y BBC yn y DU² sy'n darparu rhaglenni tebyg i deledu (gan gynnwys iPlayer), waeth beth fo'r dull cyflwyno.
- 1.4 Mae Ofcom yn annog pob darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw ("ODPS") hysbysedig, gan gynnwys darparwyr Gwasanaeth Haen 1 a'r BBC, i ddatblygu cynlluniau gweithredu hygyrchedd gyda'r nod o wneud eu ODPS yn fwy hygyrch i bobl anabl yn barhaus ac yn raddol³. Rhaid darparu copi o unrhyw gynllun gweithredu o'r fath i Ofcom⁴. Dylai darparwyr hefyd barhau i roi sylw i [ganllawiau Ofcom ar Ddarparu Gwasanaethau Teledu a Mynediad Ar-alw](#).

¹ Mae rhestr gyfredol o Wasanaethau Haen 1 hysbysedig ar gael ar wefan Ofcom.

² Wedi'i ddiffinio yn Erthygl 75 o Gytundeb y BBC

³ Adran 368C (2) o'r Ddeddf

⁴ Adran 368D (3)(zza) o'r Ddeddf

2. Cefndir Cyfreithiol

- 2.1 Cyflwynodd Deddf y Cyfryngau 2024 ("Deddf y Cyfryngau") newidiadau sylweddol i reoleiddio gwasanaethau fideo ar alw o dan Ran 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") trwy sefydlu cyfundrefn reoleiddio uwch ar gyfer categori 'Haen 1' newydd o Wasanaethau Ar-Alw ("Gwasanaethau Haen 1").⁵
- 2.2 Mae Adran 368HL o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom lunio cod sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl ag anableddau, gan gynnwys, yn benodol, pobl ag anableddau sy'n effeithio ar eu golwg neu eu clyw, neu'r ddau. Rhaid i ofynion y cod gynnwys:
- Gofyniad bod darparwyr Gwasanaeth Haen 1 yn adrodd yn flynyddol i Ofcom am hygyrchedd Gwasanaethau Haen 1 i bobl anabl, a'r camau a gymerwyd i sicrhau ansawdd a defnyddioldeb y dulliau y mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu gwneud yn hygyrch;
 - Isafswm cwtotâu ar gyfer darparu is-deitlau, sain-ddisgrifiad ac arwyddo ar Wasanaethau Haen 1 o ail a phedwerydd pen-blwydd y 'dyddiad perthnasol'.
 - Disgrifiad o unrhyw raglenni sydd wedi'u heithrio o'r gofynion cwota gofynnol.
 - Gofyniad bod darparwyr Gwasanaeth Haen 1 yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am y cymorth i bobl anabl a ddarperir mewn perthynas â'u Gwasanaethau Haen 1 ar gael i'r rhai sy'n debygol o fod eisiau ei ddefnyddio.
- 2.3 Gall gofynion y Cod hefyd gynnwys:
- Darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Haen 1 (yn gyfan neu'n rhannol) i gael eu heithrio o'r gofynion cwota gofynnol, ar sail benodol megis budd i'r gynulleidfa, anhawster technegol neu gost;
 - Darpariaeth ar gyfer eithriadau rhannol i fod yn berthnasol i rai ffyrdd yn unig y mae gwasanaeth Haen 1 yn cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd;
 - Gofynion ynghylch lefelau is o gymorth sy'n berthnasol cyn y dyddiadau yn 2.2 (b);
 - Gofynion o ran darparu cymorth i bobl anabl, neu ddisgrifiad o bobl anabl⁶ pan fo Gwasanaeth Haen 1 wedi'i eithrio'n gyfan gwbl neu'n rhannol o'r gofynion cwota gofynnol (y cyfeirir atynt yn y Cod hwn fel "gofynion amgen").
- 2.4 Rhaid i'r Cod hefyd roi canllawiau ynghylch i ba raddau y dylai Gwasanaethau Haen 1 hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad rhaglenni gan bobl anabl, a'r modd y dylid hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r fath.⁷

⁵ Wedi'i ddiffinio yn adran 368HA o'r Ddeddf fel Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alw sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarllledwr gwasanaeth cyhoeddus, heblaw'r BBC, i gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alw, neu Wasanaeth Rhaglenni Ar-alw nad yw'n rhan o'r DU sy'n Haen 1 yn rhinwedd [Rheoliadau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw \(Gwasanaethau Haen 1\) 2026](#), lle mae Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alw neu Wasanaeth Rhaglenni Ar-alw nad yw'n rhan o'r DU yn Haen 1 os oes ganddo dros 500,000 o ddefnyddwyr misol cyfartalog yn y DU. Mae'r BBC wedi'i eithrio'n benodol o'r diffiniad o Haen 1 ond gweler paragraffau 2.8 i 2.10 mewn perthynas â chymhwyso'r Cod hwn i Wasanaethau Ar-alw Cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU.

⁶ Er enghraifft, pobl ag anabledd penodol

⁷ Adran 368HL(1) o'r Ddeddf

- 2.5 Mae'n ofynnol i Ofcom adolygu a diwygio'r Cod a'r canllawiau o bryd i'w gilydd, a phan fydd yn gwneud hynny, dylai ymgynghori â phartïon perthnasol a rhoi sylw i'r angen i wneud y Cod yn hygyrch i bobl anabl.⁸
- 2.6 Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth Haen 1 gydymffurfio â'r Cod Hygyrchedd Haen 1.⁹
- 2.7 Mae'r Cod Hygyrchedd Haen 1 yn berthnasol i Wasanaethau Haen 1 yn unig i'r graddau y maent ar gael i aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig.¹⁰

Cefndir Cyfreithiol ar gyfer y BBC

- 2.8 Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gydymffurfio â chod sy'n rhoi canllawiau ynghylch i ba raddau y dylai ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad rhaglenni gan bobl ag anabledau sy'n effeithio ar eu golwg neu'u clyw, neu'r ddau, a'r modd y dylid hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r fath.¹¹ Mae'r Cod hwn yn cynnwys canllawiau perthnasol mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Rhaglenni Ar-Alw Cyhoeddus y BBC yn y DU¹² sy'n darparu rhaglenni tebyg i deledu (gan gynnwys iPlayer) y mae'n rhaid i'r BBC eu dilyn.
- 2.9 O dan Gytundeb y BBC, rhaid i'r cod y mae'n rhaid i'r BBC ei ddilyn hefyd sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i'r rhai sydd angen gwasanaethau mynediad, fel y disgrifir mewn perthynas â Gwasanaethau Haen 1 eraill yn Adran 5 (Hywyddo Ymwybyddiaeth).
- 2.10 Drwy gydol y Cod hwn, lle cyfeiriwn at ofynion mewn perthynas â Gwasanaethau Haen 1 neu ddarparwyr Gwasanaethau Haen 1, dylid darllen y rhain ac unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod hwn yng nghyd-destun Gwasanaethau Rhaglenni Ar-Alw Cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU (fel y cyfeirir ato uchod) fel rhai sy'n gymwys yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 3 i Gytundeb y BBC.

⁸ Adran 368HO o'r Ddeddf

⁹ Adran 368HP o'r Ddeddf

¹⁰ Adran 368HR o'r Ddeddf

¹¹ [Cytundeb y BBC](#), paragraff 9, Atodlen 3

¹² Wedi'i ddiffinio yn Erthygl 75 o Gytundeb y BBC

3. Diffiniadau a therminoleg

Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at 'bobl ag anabledau' ond oni bai ei fod yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddeddfwriaeth, mae'r Cod hwn yn defnyddio'r term 'pobl anabl'¹³

Yn y Cod hwn:

'Sain ddisgrifiad' yw sylwebaeth sain ychwanegol sy'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd ar y sgrin, yn bennaf ar gyfer pobl â cholled golwg a phobl ddall.

Iaith Arwyddion Prydain ("BSL") yw'r iaith arwyddion a ddefnyddir amlaf yn y Deyrnas Unedig ac mae'n iaith wahanol gyda chystrawen a geirfa wahanol i'r Saesneg.¹⁴

Ystyr 'plattform cyflenwi' yw'r rhyngwyneb y mae defnyddwyr yn cyrchu'r Gwasanaeth Haen 1 drwyddo.

Y 'dyddiad perthnasol' yw'r diweddaraf o'r diwrnod y daeth gwasanaeth yn Wasanaeth Haen 1 a'r diwrnod y cyhoeddwyd y Cod Hygyrchedd Haen 1 cyntaf.

'Perthnasol' BBC UK Public ODPS yw'r rhai sy'n darparu rhaglenni tebyg i deledu (gan gynnwys iPlayer).

'Arwyddo' yw pan fydd rhaglenni yn cael eu cyfieithu i iaith arwyddion neu eu cyflwyno mewn iaith arwyddion (gweler 'dehongli arwyddion' a 'cyflwyniad arwyddion'). Mae iaith arwyddion yn cynnwys y defnydd o ystumiau â llaw, mynegiant wyneb ac iaith y corff i gyfleu ystyr.

'Dehongli arwyddion' yw pan fydd rhaglen yn cael ei chynhyrchu'n wreiddiol heb arwyddo a bod arwyddwr yn cael ei osod ar y rhaglen, fel arfer yng nghornel y sgrin.

'Cyflwyniad arwyddion' yw pan fydd rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn iaith arwyddion.

Mae 'isdeitlo' yn cyfeirio at destun ar y sgrin sy'n cynrychioli effeithiau lleferydd a sain wedi'u cydamseru mor agos â phosibl i'r sain, sy'n addas i'w ddefnyddio gan bobl â cholled clyw a phobl fyddar.

¹³ Mae hyn yn adlewyrchu'r "model cymdeithasol" o anabled.

¹⁴ Mae Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 yn cydnabod BSL fel iaith Cymru, Lloegr a'r Alban. Defnyddir BSL ac Iaith Arwyddion Gwyddelig (ISL) yn gyffredin yng Ngogledd Iwerddon

4. Cwotâu

- 4.1 Mae'r adran hon yn nodi'r cwotâu statudol gofynnol ar gyfer Gwasanaethau Haen 1, ynghyd â chwotâu dros dro a osodwyd gan Ofcom. Dylai darparwyr hefyd weld Eithriadau a'r Gofynion Amgen am ganllawiau ar wasanaethau sydd wedi'u heithrio o'r cwotâu llawn a nodir yma.
- 4.2 Mae'r Ddeddf yn nodi cwotâu ar gyfer isdeitlo, sain ddisgrifiad ac arwyddo ar gyfer pob cyfnod deuddeg mis sy'n dechrau gydag ail a phedwerydd pen-blwydd "y dyddiad perthnasol".¹⁵ I'r rhan fwyaf o wasanaethau, y dyddiad perthnasol fydd dyddiad cyhoeddi'r Cod hwn.¹⁶
- 4.3 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Ofcom osod cwotâu dros dro ar gyfer y cyfnodau deuddeg mis sy'n dechrau gyda phen-blwydd cyntaf a thrydydd pen-blwydd y dyddiad perthnasol¹⁷.
- 4.4 Yn unol â Chytundeb y BBC, mae'r Cod hwn hefyd yn nodi cwotâu ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Cyhoeddus Ar-alw y BBC yn y DU sy'n cynnig rhaglenni tebyg i rhaglenni teledu (gan gynnwys iPlayer).
- 4.5 Mae'r cwotâu statudol a dros dro wedi'u manylu yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Cwotâu gwasanaethau mynediad (fel % o oriau'r rhaglen) ar gyfer Gwasanaethau Haen 1 nad ydynt wedi'u heithrio'n llwyr neu'n rhannol

Pen-blwydd y dyddiad perthnasol (mae cwotâu yn berthnasol i'r cyfnod o 12 mis o'r pen-blwydd hwn)	Isdeitlo	Sain Ddisgrifiad	Arwyddo (dehongli arwyddion a/neu gyflwyno arwyddion)
Yn gyntaf (cwotâu dros dro)	20%	2.5%	1%
Ail (cwotâu statudol)	40%	5%	2.5%
Trydydd (cwotâu dros dro)	60%	7.5%	3.5%
Pedwerydd ymlaen (cwotâu statudol)	80% Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU: 90%	10%	5%

¹⁵ Mae'r cwotâu cymwys wedi'u nodi yn adrannau 368HL(4) a (5) o'r Ddeddf.

¹⁶ Mae adran 368HM yn diffinio "y dyddiad perthnasol" mewn perthynas â phob Gwasanaeth Haen 1 fel yr olaf o'r diwrnod y daeth gwasanaeth yn Wasanaeth Haen 1, a'r diwrnod y cyhoeddir y cod cyntaf o dan [adran 368HL](#).

¹⁷ Adran 368HL(11)(a) o'r Ddeddf

- 4.6 Dylid dehongli'r cwotâu fel canrannau o hyd cyfunol (yn nhermau oriau rhaglenni) rhaglenni unigryw sydd ar gael ar y gwasanaeth hwnnw o fewn y cyfnod penodol, ac eithrio hysbysebion.¹⁸
- 4.7 Nid oes unrhyw raglenni wedi'u heithrio o'r gofynion cwota lleiafrif.¹⁹
- 4.8 Mae'r cwotâu yn berthnasol i gynnwys Gwasanaethau Haen 1 waeth beth fo'r dull cyflwyno. Golyga hyn y dylai'r cwotâu gael eu bodloni gan y gwasanaeth ar bob platfform cyflenwi lle mae ar gael, ac ni ddylid eu cyfrifo fel cyfartaledd ar draws pob platfform cyflenwi. Mae'r cwotâu yn cynrychioli rhwymedigaethau gofynnol ac mae pob set o gwtâu yn berthnasol yn llawn o ben-blwydd perthnasol y 'dyddiad perthnasol'.²⁰

Safonau ansawdd

- 4.9 Er bod Ofcom yn agored i ddefnyddio gwahanol dechnolegau i ddarparu gwasanaethau mynediad, mae angen i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 sicrhau bod eu gwasanaethau mynediad o ansawdd digon uchel.
- 4.10 Wrth asesu cydymffurfiaeth â'r Cod hwn, bydd Ofcom yn ystyried a yw gwasanaethau mynediad o safon uchel fesul achos, gan ystyried amrywiol ffactorau i asesu hyn, gan gynnwys:
- Ar gyfer isdeitlau: cywirdeb, cydamseroldeb, darllenadwyedd, arddull cyflwyno, a disgrifiad o wybodaeth nad yw'n llafar. Bydd Ofcom hefyd yn ystyried a yw'r rhaglennu yn fyw neu wedi'i recordio ymlaen llaw.
 - Ar gyfer sain-ddisgrifiad: cywirdeb, dealltwriaeth a chlywedrwydd.
 - Ar gyfer arwyddo: cywirdeb, cydamseroldeb, a gweledd.
- 4.11 Mae Ofcom yn annog Gwasanaethau Haen 1 i ystyried ein [canllawiau arfer gorau](#) [Canllawiau ar Ddarparu Gwasanaethau Teledu a Mynediad Ar-alw](#) sy'n darparu canllawiau pellach ar sut y gallant hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'u rhaglenni gan bobl anabl. Rydym yn annog Gwasanaethau Haen 1 i flaenoriaethu darparu gwasanaethau mynediad ar gyfer cynnwys newydd a phoblogaidd ar draws ystod eang o raglenni a chynnwys sy'n apelio'n benodol at gynulleidfaedd anabl, yn hytrach na cheisio cyflawni'r rhwymedigaethau cwota gyda rhaglenni sy'n aros ar wasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn.

¹⁸ O dan adran 368HL (16) o'r Ddeddf, nid yw 'rhaglen' yn cynnwys hysbysebion.

¹⁹ Mae adran 368HL(7) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod hwn nodi disgrifiadau o unrhyw raglenni sydd wedi'u heithrio o'r gofynion cwota lleiafrif.

²⁰ Gweler troednodyn 16

5. Eithriadau a gofynion amgen

Eithriadau

- 5.1 Mae Gwasanaethau Haen 1 yn destun i'r gofynion cwota a amlinellir yn Adran 4, oni bai eu bod wedi'u heithrio gan Ofcom.
- 5.2 O dan y ²¹, gall Ofcom wneud darpariaeth yn y Cod i Wasanaethau Haen 1 gael eu heithrio'n llwyr neu'n rhannol o rai o'r cwtâu statudol yn Nhabl 1 uchod. Wrth benderfynu a ddylid eithrio'r cyfan neu ran o wasanaeth Haen 1 yn llwyr neu'n rhannol o'r cwtâu statudol yn Nhabl 1 uchod, rhaid i Ofcom ystyried, yn benodol, y canlynol:
- maint y budd a fyddai'n cael ei roi pe bai darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofynion cwota;
 - maint y gynulleidfa ar gyfer y gwasanaeth;
 - nifer y bobl a fyddai'n debygol o elwa o gydymffurfio â'r gofynion cwota a maint y budd tebygol i'r bobl hynny;
 - i ba raddau y mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn byw mewn mannau y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
 - yr anhawster technegol o gydymffurfio â'r gofynion cwota; a
 - y gost, yng nghyd-destun y materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (e), o gydymffurfio â'r gofynion cwota.
- 5.3 Gall Ofcom wneud darpariaeth yn y Cod i eithriadau rhannol i fod yn berthnasol mewn perthynas â dull penodol y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu i aelodau'r cyhoedd²² (er enghraifft drwy blatfform cyflenwi penodol).
- 5.4 Mae Atodiad 1 yn nodi'r broses y dylai darparwyr gwasanaeth Haen 1 ei dilyn os ydynt yn credu bod eu gwasanaeth yn gymwys ar gyfer eithriad. Rydym yn nodi isod ganllawiau ar sut y bydd Ofcom yn ystyried y meini prawf ym mharagraff 4.2 wrth ystyried a ddylid eithrio gwasanaeth yn llwyr neu'n rhannol o rai neu'r cyfan o'r cwtâu statudol. Bydd Ofcom yn defnyddio'r un canllawiau, fel sy'n berthnasol, mewn perthynas â Gwasanaeth(au) Rhaglenni Ar-alw Cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU.
- 5.5 Pan fo gwasanaeth cyfan neu ran ohono wedi'i eithrio o'r cwtâu statudol, gall Ofcom osod gofynion amgen, ac thrwy wneud hynny bydd yn ystyried y ffactorau a nodir uchod yn 4.2 (gweler 'Gofynion Amgen' isod).

Budd y gynulleidfa

- 5.6 Mae Gwasanaeth Haen 1 yn wasanaeth darlledu ar-alw neu'n wasanaeth darlledu ar-alw nad yw'n rhan o'r DU sydd â mwy na 500,000 o ddefnyddwyr misol cyfartalog yn y DU neu'n wasanaeth darlledu ar-alw a ddefnyddir gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus heblaw'r BBC²³ i gyfrannu at gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.²⁴ Felly, mae cydymffurfio â'r gofynion cwota yn debygol o roi buddion

²¹ Adran 368HL(8) o'r Ddeddf

²² Adran 36HL(9) o'r Ddeddf

²³ Fel y nodir yn 2.8 i 2.10 mae'r Cod hwn hefyd yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alw Cyhoeddus y BBC yn y DU o dan Gytundeb Fframwaith y BBC.

²⁴ [Rheoliadau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw \(Gwasanaethau Haen 1\) 2026](#)

sylweddol i'r gynulleidfa. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol byddai Ofcom yn ystyried a ellir cyfiawnhau eithriad, o ystyried y gost, mewn perthynas â llai o fudd cynulleidfa ar blatfform darpariaeth penodol (gweler yr adran 'Cost' isod).

Anhawster technegol

- 5.7 Ni fydd yn rhaid i Wasanaethau Haen 1 gydymffurfio â'r gofynion cwota llawn os yw Ofcom yn fodlon na fyddai hyn yn ymarferol ar sail anhawster technegol (mewn perthynas â rhan neu'r cyfan o'r gwasanaeth, neu â rhai neu'r cyfan o'r gofynion).
- 5.8 Gall hyn gynnwys anawsterau technegol sy'n gysylltiedig â'r platfform cyflenwi (a allai fod yn berthnasol i ddarparu gwasanaeth mynediad penodol ar draws y gwasanaeth cyfan ar y platfform hwnnw) neu anawsterau technegol mewn perthynas â darparu gwasanaethau mynediad ar gyfer math penodol o raglennu (a allai fod yn berthnasol i ran o'r gwasanaeth fel sy'n cynnwys y rhaglenni hynny). Gall hyn fod yn wir, er enghraifft, lle mae catalog yn cynnwys cyfran fawr o raglenni lle nad yw'r trac sain yn caniatáu ychwanegu sain disgrifiad (e.e. rhai rhaglenni cerddoriaeth neu chwaraeon).

Cost

- 5.9 Gellir rhoi eithriad i ddarparwyr gwasanaeth Haen 1 o'r gofynion cwota os gallant ddangos mewn perthynas â'r gwasanaeth y byddai cydymffurfiaeth yn arwain at gostau anghymesur o'i gymharu â'r ffactorau eraill a amlinellir yn adran 4.2. Gall gwasanaeth gael ei eithrio'n llwyr neu'n rhannol o rai neu'r holl ofynion, a gall yr eithriadau hyn fod yn berthnasol i'r gwasanaeth fel y mae ar gael ar blatfform darpariaeth penodol.
- 5.10 Wrth benderfynu a ddylid rhoi eithriad ar y sail hon, bydd Ofcom yn ystyried ffactorau gan gynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – y canlynol:
- Costau tebygol o fodloni'r gofynion cwota, gan gynnwys costau gwasanaeth a phlatfform-benodol;
 - Trosiant darparwr (trosiant cyffredinol y darparwr a'r trosiant y gellir ei briodoli'n benodol i ddarparu'r Gwasanaeth Haen 1);
 - Gwariant ar gynnwys;
 - Maint y gynulleidfa ar gyfer y gwasanaeth yn gyffredinol ac ar blatfform penodol;
 - Gwerth / budd y gwasanaeth (gan gynnwys ar blatfform penodol) i gynulleidfa oedd anabl sy'n debygol o fod eisiau ei ddefnyddio;
 - A fyddai cydymffurfiaeth yn debygol o arwain at ganlyniadau andwyol i gynulleidfa oedd anabl, megis llai o fuddsoddiad, tynnu cynnwys yn ôl, neu effeithiau ar gystadleuaeth neu ddewis defnyddwyr.
- 5.11 Mae Ofcom yn fwy tebygol o ystyried ceisiadau am eithriadau ar y sail hon lle mae gan ddarparwr y Gwasanaeth Haen 1 perthnasol drosiant o lai na £250 miliwn. Mae costau'n llai tebygol o gael eu hystyried yn anghymesur ar gyfer darparwyr sydd â throsiant uwch²⁵, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae budd y gynulleidfa wrth fodloni'r gofynion yn isel iawn.

²⁵ Mae amcangyfrifon Ofcom yn awgrymu, ar gyfer darparwyr Gwasanaeth Haen 1 sydd â throsiant uwch, bod costau cydymffurfio yn debygol o gynrychioli sylweddol llai nag 1% o drosiant darparwyr.

Gofynion amgen

- 5.12 Gall darparwyr gwasanaeth sy'n gofyn am, neu sydd wedi cael eithriad wedi'i gymhwyso ar gyfer y gwasanaeth cyfan neu ran ohono mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r gofynion, gynnig trefniadau amgen gan ystyried y ffactorau a amlinellir yn 4.2.
- 5.13 Os yw Ofcom yn penderfynu ei bod yn briodol cymhwyso eithriad, bydd Ofcom yn ystyried a ddylid gosod gofynion amgen (gan gynnwys unrhyw rai a gynigir gan y darparwr gwasanaeth Haen 1) gan ystyried yr un ffactorau ag sy'n berthnasol wrth ystyried a yw'n briodol eithrio gwasanaeth neu ran o wasanaeth o'r cwotâu statudol (er enghraifft, budd cynulleidfa).
- 5.14 Pan fydd Ofcom yn cymhwyso eithriad rhannol, bydd yn ceisio, lle bo'n briodol, ddyfeisio gofynion amgen mewn deialog â darparwyr gwasanaeth Haen 1.
- 5.15 Os yw Ofcom wedi cymhwyso eithriad yn dilyn cais yn seiliedig ar gostau tebygol cyflawni'r gofynion cwota o'i gymharu â ffactorau eraill (fel uchod), fel budd i'r gynulleidfa, bydd Ofcom yn ystyried a ddylid gosod gofynion amgen. Wrth wneud hynny, bydd Ofcom eisiau bod yn fodlon y byddai unrhyw ofynion o'r fath yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i gynulleidfaedd anabl sy'n debygol o fod eisiau defnyddio gwasanaethau mynediad gan sicrhau bod costau cydymffurfio yn gymesur yng nghydestun y ffactorau eraill yn 4.2.

6. Hyrwyddo ymwybyddiaeth

- 6.1 Mae'n ofynnol i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 sicrhau bod pobl anabl yn cael digon o wybodaeth am y cymorth sydd wedi eu wneud ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau mynediad i ddefnyddwyr posibl y gwasanaethau (yn enwedig, pobl ag anabledau sy'n effeithio ar eu golwg neu eu clyw, neu'r ddau).
- 6.2 Rhaid i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 gosod yn glir pa raglenni sy'n cyd-fynd â gwasanaethau mynediad, er enghraifft drwy ddefnyddio'r acronymau safonol mewn prif lythrennau ar gyfer isdeitlo (S), sain-ddisgrifio (AD) ac arwyddo (SL). Dylid darparu'r wybodaeth hon trwy lwyfannau cyflenwi'r darparwr Haen 1 ei hun (fel eu gwefannau neu apiau eu hunain) a dylai fod yn hygyrch i ddefnyddwyr anabl. Dylai darparwyr Gwasanaeth Haen 1 hefyd sicrhau bod gwybodaeth gywir ac amserol ar gael i ddarparwyr trydydd parti o lwyfannau y mae'r Gwasanaeth Haen 1 ar gael i ddefnyddwyr drwyddynt. Mae Ofcom wedi gosod rhwymedigaethau cyfatebol ar Wasanaethau Dethol Teledu rheoleiddiedig i sicrhau, lle darperir gwybodaeth o'r fath, ei bod ar gael i ddefnyddwyr.
- 6.3 Rhaid i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 hefyd gymryd camau effeithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau mynediad a sut i'w defnyddio trwy ddulliau eraill, gan gynnwys marchnata ac ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at bobl sy'n debygol o elwa o wasanaethau mynediad.
- 6.4 Pan fo amgylchiadau annisgwyl yn golygu nad yw gwasanaethau mynediad ar gael dros dro neu am gyfnod estynedig, rhaid i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 gymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth ddiweddar yn cael ei darparu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i blatfformau trydydd parti a bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth amserol a chywir am ba wasanaethau sy'n parhau i fod ar gael a/neu bryd y byddant yn cael eu hadfer drwy ddulliau priodol, hygyrch ac effeithiol gan gynnwys cyfathrebiadau ysgrifenedig/ar-lein, a defnyddio arwyddo lle bo'n briodol ar gyfer y gynulleidfa yr effeithir arno.²⁶

²⁶ Am ganllawiau ar hyrwyddo ymwybyddiaeth yn effeithiol o wasanaethau mynediad a chyfathrebu â chynulleidfaedd rhag ofn y bydd ymyrraeth â'r ddarpariaeth, gweler [Canllawiau Ofcom ar Ddarparu Gwasanaethau Teledu a Mynediad Ar-alw](#).

7. Adrodd

- 7.1 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 adrodd i Ofcom ar hygyrchedd eu gwasanaethau a'r camau a gymerwyd i sicrhau ansawdd a defnyddioldeb y dulliau y mae eu gwasanaethau'n cael eu gwneud yn hygyrch i bobl anabl yn flynyddol.²⁷
- 7.2 Er mwyn arddangos hygyrchedd a chydymffurfiaeth â'r cwotâu statudol a/neu unrhyw ofynion amgen a osodwyd, rhaid i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 adrodd i Ofcom yn flynyddol ar y canlynol fel y bo'n berthnasol:
- Nifer yr oriau rhaglen unigryw a wnaed ar gael gydag is-deitlau, sain-ddisgrifiad ac arwyddo (gan nodi faint o ddehongli / cyflwyno arwyddion) yn ôl platfform yn ystod y cyfnod adrodd perthnasol;
 - Cyfanswm nifer yr oriau rhaglen unigryw a wnaed ar gael yn ôl platfform yn ystod yr un cyfnod.
- 7.3 Rhaid i ddarparwyr Gwasanaethau Haen 1 adrodd i Ofcom yn flynyddol ar y camau a gymerwyd i sicrhau ansawdd eu gwasanaethau mynediad (p'un a ydynt yn cael eu darparu o dan y cwotâu statudol neu o dan ofyniad amgen). Dylai adroddiadau fynd i'r afael â ffactorau fel:
- Ar gyfer isdeitlau: cywirdeb, cydamserydd, darllenadwyedd, arddull cyflwyno, a disgrifiad o wybodaeth nad yw'n llafar
 - Ar gyfer sain ddisgrifiad: cywirdeb, dealladwyedd a chlywadwyedd
 - Ar gyfer arwyddo: cywirdeb, cydamserydd, a gwelededd
- 7.4 Rhaid i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 hefyd adrodd i Ofcom yn flynyddol ar ddefnyddioldeb eu gwasanaethau mynediad (p'un a ydynt yn cael eu darparu o dan y cwotâu statudol neu o dan ofyniad amgen) i'r graddau y mae defnyddioldeb y gwasanaethau mynediad hynny o dan reolaeth.²⁸ Dylai adroddiadau gynnwys gwybodaeth am:
- A yw argaeledd gwasanaethau mynediad wedi'i arwyddo ar raglenni unigol, fel y gall cynulleidfaoedd adnabod yn hawdd pryd mae isdeitlau, sain-ddisgrifiad neu arwyddo ar gael;
 - A yw'r gwasanaeth yn caniatáu i gynulleidfaoedd chwilio, hidlo neu bori cynnwys yn ôl y math o wasanaeth mynediad sydd ar gael;
 - A yw'r darparwr yn cynnal tudalen bwrpasol a hygyrch sy'n egluro argaeledd gwasanaethau mynediad, ac unrhyw offer sy'n gysylltiedig â hygyrchedd.
- 7.5 Wrth adrodd ar y camau a gymerwyd i sicrhau ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau mynediad, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ofynion amgen, byddem yn disgwyl i ddarparwyr gyfeirio at ffactorau fel:

²⁷ Adran 368HL(2) o'r Ddeddf

²⁸ Rydym yn cydnabod, lle mae gwasanaethau Haen 1 yn cael eu datblygu trwy blatfformau trydydd parti, gall defnyddioldeb gwasanaethau mynediad ddiwyddu'n rhannol ar ddarparwyr y platfformau hynny.

- a) Lle mae trydydd parti yn cael ei gyflogi i greu gwasanaethau mynediad, boed i fodloni'r cwtâu statudol neu o dan ofyniad amgen, y prosesau sydd ar waith i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaethau hynny;
- b) Unrhyw gwynion a dderbynnir ynghylch ansawdd neu ddefnyddioldeb gwasanaethau mynediad, a'r mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw;
- c) Unrhyw ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd i lywio'r broses o ddarpariaeth neu'r dyluniad o wasanaethau mynediad;
- d) Unrhyw adborth gan y gynulleidfa a ystyriwyd wrth ddarparu gwasanaethau mynediad;
- e) Unrhyw gynnwys poblogaidd a wnaed ar gael gyda gwasanaethau mynediad yn ystod y flwyddyn adrodd.

Drafft ar gyfer ymgynghori

A1. Proses ar gyfer gofyn am eithriadau a chynnig trefniadau amgen

- A1.1 Mae'r Atodiad hwn yn egluro'r broses ar gyfer gofyn am eithriad o'r cwotâu statudol ac ar gyfer cynnig trefniadau amgen.
- A1.2 Nid oes rhaid i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 gynnig trefniadau amgen, ac nid oes rhaid i Ofcom dderbyn unrhyw gynnig yn lle bodloni gofynion y cwota.

Gwneud cais am eithriadau

- A1.3 Dylai darparwyr Gwasanaeth Haen 1 sy'n dymuno gofyn am eithriad i'r holl ofynion cwota a amlinellir yn adran 3 neu ran ohonynt wneud cais i Ofcom erbyn 30 Ebrill yn y flwyddyn cyn iddynt ddymuno i eithriad ddod i rym.
- A1.4 Dylai cais o'r fath nodi:
- Y Gwasanaeth(au) Haen 1 y ceisir yr eithriad ar eu cyfer;
 - Y sail y ceisir yr eithriad ar eu cyfer (gweler adrannau 'yr Eithriadau')
 - Tystiolaeth i gefnogi'r cais gan ystyried y ffactorau perthnasol a amlinellir yn 4.2 a 4.10
- A1.5 Bydd Ofcom yn hysbysu'r darparwr os oes angen gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol a bydd fel arall yn anelu at benderfynu a ddylid rhoi eithriad ai peidio erbyn 31 Gorffennaf.
- A1.6 Gall Ofcom ystyried ceisiadau am eithriadau y tu allan i'r amserlen hon, ond rhaid eu gwneud o leiaf 8 mis cyn y dyddiad y byddai'r eithriad yn dod i rym. Yna byddai Ofcom yn anelu at benderfynu a ddylid cytuno i'r eithriad ai peidio o leiaf 5 mis cyn y dyddiad y bwriedir i'r eithriad ddod i rym.
- A1.7 Pan fydd cais am eithriad wedi'i dderbyn gan Ofcom, a bod darparwr yn dymuno i'r eithriad aros yn ei lle, rhaid i'r darparwr roi cadarnhad i Ofcom yn flynyddol bod y sail y derbyniwyd yr eithriad arni yn aros yr un fath. Lle mae cais am eithriad wedi'i dderbyn ar sail cost, byddai hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth gost wedi'i ddiweddarau (gweler 4.9 i 4.11). Dylid darparu cadarnhad o'r fath i'r un amserlen â'r cais gwreiddiol am eithriad.

Trefniadau amgen

- A1.8 Lle mae Ofcom wedi derbyn cais am eithriad o'r gofynion cwota, gall osod gofynion amgen fel cwotâu is (gweler 4.12 i 4.15).
- A1.9 Gall darparwyr Gwasanaeth Haen 1 hefyd, wrth ofyn am eithriad, gynnig trefniadau amgen penodol, gan gyfeirio at y ffactorau a restrir yn 4.2.
- A1.10 Dylid cyflwyno cynigion ar gyfer trefniadau amgen a byddant yn cael eu hystyried gan Ofcom i'r un amserlen â cheisiadau eithriadau fel yr amlinellir uchod.
- A1.11 Lle mae trefniadau amgen yn cael eu cymeradwyo gan Ofcom a'u gosod fel gofynion amgen, dylai darparwr Gwasanaeth Haen 1 gynnwys gofynion o'r fath yn eu

hadroddiadau ar hygyrchedd eu gwasanaethau ac ansawdd a gallu defnyddiol y dulliau y mae eu gwasanaethau yn cael eu gwneud yn hygyrch. Os yw'r darparwr yn dymuno i'r trefniadau amgen hyn aros ar waith, dylent gadarnhau i Ofcom yn flynyddol fod y sail y cymeradwywyd y trefniadau hynny arnynt yn aros yr un fath. Dylid darparu cadarnhad o'r fath o fewn yr un amserlen â'r cynnig gwreiddiol a gall gyfeirio at wybodaeth a ddarperir mewn adroddiadau blynyddol ar effeithiolrwydd y trefniant (gweler yr adran Adrodd). Y tu allan i'r amserlenni hyn, gall Ofcom adolygu unrhyw ofynion amgen sydd ar waith o bryd i'w gilydd.

- A1.12 Lle bo newidiadau sylweddol mewn perthynas â'r sail y cymeradwywyd trefniadau amgen arnynt yn wreiddiol, rydym yn disgwyl i ddarparwyr Gwasanaeth Haen 1 ein hysbysu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Drafft ar gyfer ymgynghori